# Galwad i sancteiddrwydd

*"Yr wyf yn ymbil arnoch, gyfeillion, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw." (adn. 1)*

**Beth am ddarllen Rhufeiniaid 12:1–8 ac yna myfyrio**

Un o'r ffynhonnau hynny y byddaf yn gofidio yn arw y byddaf yn taflu llwch a llaid iddi'r diwrnodau hyn yw 'sancteiddrwydd'. Yn ystod cynhadledd yn ddiweddar ar gyfer arweinwyr Cristnogol ifanc, mynegwyd consyrn fod llawer o eglwysi wedi peidio â dysgu pobl ifanc am sancteiddrwydd gan esbonio pa mor bwysig yw hwn yn y bywyd.

Roedd un arweinydd yn galaru am hyn yn fy ngŵydd gan ddweud, 'Nid ydym byth yn clywed gair yn fy eglwys am Dduw yn sanctaidd. Mae popeth fel petai yn osgoi hynny. Nid oes gennyf wrthwynebiad i hyn ond rwy'n gwybod y gall pobl ifainc ganu, dawnsio, llefain, ymateb, dod lawr i'r blaen, rhoi eu hunain i'r dasg o ennill pobl eraill i Grist, ond, ar yr un pryd, yn meddwl dim am gael rhyw y tu allan i briodas.'

Does dim amheuaeth fod llawer o weinidogion yn ofnus gyda golwg ar y pwnc oherwydd eu bod yn meddwl y bydd hyn yn cael ei ddehongli fel rhyw fath o ddychwelyd at y ddeddf. Tybiaf fod angen esbonio lle'r ddeddf a lle'r gyfraith ym mywyd y Cristion yn glir. Nid ceisio ennill iachawdwriaeth trwy fod yn ufudd i ddeddf ac i gyfraith Duw yw'r alwad yma i sancteiddrwydd. Nid yw bod yn Gristnogion yn eithrio oddi wrth y ddeddf. Yn hytrach, mae presenoldeb yr Ysbryd Glân yn ein calonnau yn ein cynorthwyo ni i gadw'r gyfraith, a hynny trwy'r grym dwyfol sydd ynom. Nid yw credinwyr yn gweithio i gael eu hachub ond yn gweithio oherwydd eu bod wedi eu hachub. Mae yna fyd o wahaniaeth rhwng y ddau.

Os nad yw'r sancteiddrwydd sydd yn y Testament Newydd yn cael ei adfer o fewn eglwysi, mae yna beryg na fydd yna fawr o wahaniaeth rhwng yr eglwys a'r byd a phwy fydd yn sylwi.

**Beth am fynd ymlaen i ddarllen:**
Eseia 35:5–10; 1 Thes. 4:1–8

**Meddyliwch am y cwestiynau hyn:**
1. Pa lwybr a gysylltir â iachawdwriaeth?
2. Beth yw ewyllys Duw ar gyfer ein bywyd?

**Gweddi**
O Dad nefol, rwy'n ymwybodol efallai bod y ffordd rwy'n byw fy mywyd Cristnogol yn deillio o'r ffaith nad ydw i wedi dysgu sut mae byw. Arglwydd, rwy'n gofyn i ti annog a herio ein harweinwyr i bregethu nid y gwirionedd yn unig ond y gwirionedd i gyd. Yn enw Iesu. Amen.